BWRLWM AERON

July 2012

50TH ANNIVERSARY CELEBRATIONS

Congratulations to our link school in Mosty, Poland who are celebrating fifty years as well!

MOSAIC

Thank you everyone for your input into our wonderful mosaic. From your comments, we know that you are as proud of it as we are and that it truly reflects life at the school and in Aberaeron for us all. Our sincere thanks to Pod Clare who co-ordinated the project and to the National Lottery for the funding.

MUGS

Our congratulations to Harri Wilson on having his picture of the school chosen for our celebratory mugs. There have been numerous complementary comments from families and the public. The mugs are for sale from the school now at £8 each.

OUR CELEBRATORY CONCERT

Our sincere thanks to everyone who contributed to our celebratory concert by dressing, transporting and encouraging pupils. The time given to practices was deliberately kept short so as to interfere as little as possible with normal school activities. This strategy actually worked very well, as everyone just really worked hard at it for a short time and was still full of energy and enthusiasm on the two evenings. Your children really did well and we are so proud of them ! Our thanks to all the staff who helped write/edit the words, created costumes etc., and to the Memorial Hall team, particularly Gareth, without whose expertise and support many of the effects would not have been possible. The performances were a fitting tribute to 50 years of education at the school—an education which has prepared pupils and helped them on their way to undertake a wide variety of occupations—academic, professional, practical and sport related local, national and global levels. We hope it continues to provide the same degree of support in the future, nurturing the next generations so that they too develop into independent, confident and capable individuals who are able to think for themselves and make valuable contributions to their communities.

CELEBRATORY OPEN DAY

A great deal of discussion was generated by our exhibitions of photographs, books, CDs and artefacts at the Open Day—classmates and events from along the years were remembered, anecdotes exchanged and reminiscences shared and enjoyed. Our thanks to those of you who contributed from your own collections and to those who remembered and recorded names on the day. We are grateful to you for adding to our historical knowledge of our school.

The whole day was very well attended and we really thank you all for your support. We particularly thank Mrs. Owenna James, Aberaeron Mayor for coming to open the proceedings for us and for sharing her own reminiscences of when her boys attended the school and we also thank her for her good wishes.

Everyone also enjoyed the Summer Fair organised by the Friends of the School. We thank them very much for working so closely with the

———————————

BONUS BALL NUMBERS

2.6.12 Neris Hesford

16.6.12 Sally Davies

23.6.12 Carol Davies

30.6.12 Marjorie Squires

7.7.12 Alison Lally

14.7.12 Sarah Thomas

ENTERPRISE DAY

Our budding Lord Sugars took part in an afternoon of enterprise. Pupils from Year 3 to 6 took part with a variety of businesses. The sole trader prize was won by James Sweet and the joint partnership business was won by Saffron Munro and Jessica Harwood.

Congratulations to everyone who took part.

YR.4—OUTDOOR ACTIVITIES

An enjoyable day was experienced by Year 4 when they went on a day out to Naturesbase, Cilcennin. They made shelters in the woods, camp fire, solved survival problems, made pizzas and got thoroughly dirty!!

Our thanks to Giles, Alison and Jasmin for an absolutely fantastic experience.

ROYAL VISIT TO ABERAERON

We were so fortunate to have dry sunny weather on the day of the visit—we had envisaged the possibility of returning to school like a pack of drowned rats! In the event the one hour wait by the harbour wasn't too bad and the children behaved so well! We were so proud of their behaviour and there were many many comments from the public as to how patient and good they were, even our four year olds. We were also proud of their singing and performance. Our thanks to Bryn for presenting the Duchess of Cornwall with a bouquet of her favourite flowers and to Tomos for presenting one of our celebratory mugs to Prince Charles. Our thanks to you all and to Ceredigion for all the support.

CEREDIGION PROMS

Once again, Year six pupils were invited to sing in the Ceredigion Year 6 choir at the proms. This is a fantastic experience and the high level of performance achieved is incredible. This year was no exception and our pupils benefitted tremendously from the experience. Eight of our string players took part in the Ceredigion orchestra which performed at the proms, again to an extremely high standard. We congratulate both the singers and instrumentalists on their performances and for representing our school so superbly.

PENTRE BACH

Years 1 & 2 spent an unforgettable night at Pentre Bach. Even though the weather was not exciting everyone had a great time with a fantastic party to start in Sali Mali's café. As everyone was so excited we managed to sleep in the end !! in Pili Pala's & Nicw Nacw's house. The rest of year 1 and 2 class joined us on Friday morning and we had a visit from Sali Mali and Coblyn. Many thanks to Mrs. Owen, Miss Thomas, Miss Janet & Miss Jones. We hope to be able to arrange another visit next year.

SPORTS DAY

We managed to hold both sports day despite the weather. In KS.2 and Foundation Phase we had keen competing and a good attendance from parents and supporters. Pentwr won KS.2 and Cadwgan the Foundation Phase

BOOMERANG TV

There is another series being filmed now and scenes from the school are included as usual. Thanks to everyone that voluntarily helped this year again.

FIRST AID

Congratulations to year 5 pupils for successfully completing a day's First Aid course—well done all of you.

Our congratulations also to Mrs.Debbie Parnell for successfully completing and passing the exam on First Aid at work three day course and to Miss Rian Evans for successfully completing and passing a two day refresher FIrst Aid at work course.

COMENIUS ASSISTANT

We have been successful in being allocated a French Comenius assistant for the coming year—Lactitia. We look forward to her joining us in September and to benefitting from her knowledge and expertise. We are still looking for a flat/apartment for her—please let us know if you are aware of any that are available.

P.C. JACKIE

During this term P.C.Jackie has been in to talk to all pupils about 'Safety on the Beach'.

Everyone really enjoys these presentations and activities.

NôL a MLAEN FESTIVAL

Thanks to everyone who sang at the festival in Llangrannog recently. Many thanks to the parents for your support.

NURSERY/RECEPTION TRIP

Nursery & Reception class went to Teifimania for the morning and spent the afternoon on Poppit Sands. An enjoyable day was had by all.

OPPORTUNITY TO BECOME A PYRAMID LEADER

Aberaeron Primary School—Autumn Term

Free training to become a Pyramid Leader, building children's self-esteem (age 7-8). This would be valuable experience if you are considering working with children. Please contact Helen Llewellyn—07581035817

PENDINE

Year 5 and 6 pupils enjoyed a wonderful week at Pendine where they participated in numerous activities—kayaking, abseiling, travelling the zip wire, building across the stream, listening to the story teller—and of course an unforgettable day on Skomer Island.

Whilst there, Mr.Jones was presented with a certificate on contributing 25 years of service. Our thanks to him for giving so freely of his time to take pupils and enabling them to benefit from these experiences along the years as well as this year. Our thanks to Miss Elin, Miss Susan and Miss Debbie for their input and time this year.

BEACH ACTIVITIES

During the term all classrooms have had the opportunity to do beach activities with Melanie Heath. The different experiences have been worthwhile as well as interesting.

CHILDHOOD EXHIBITION

All pupils have had the opportunity to see the presentation at Peniel vestry depicting various aspects of childhood in days gone by. Children got the opportunity to see how school was run in Victorian times and games that were played and many photographs.

GOOD LUCK

Good luck to the pupils who will be leaving us at the end of the term to continue their education at the Secondary School. Thanks to you all and your families for your contributions to Aberaeron Primary School and remember there will always be a welcome here anytime. We will miss you all.

Best wishes also to Rian Evans who started maternity leave. We wait for some exciting news !

BWRLWM AERON

G?rffennaf 2012

DATHLIADAU HANNER CAN MLWYDDIANT YR YSGOL

Llongyfarchiadau i'n hysgol gyswllt yn Mosty yng Ngwlad Pwyl sy'n dathlu hanner can mlwyddiant hefyd !

MYGIAU

Ein llongyfarchiadau i Harri Wilson ar gael ei lun o'r ysgol wedi ei ddewis ar gyfer ein mwg dathlu. Rydym wedi derbyn llawer o sylwadau canmoliaethus wrth deuluoedd a'r cyhoedd amdano. Maent ar werth o'r ysgol nawr am £8 yr un.

MOSAIG

Diolch i bawb am eich mewnbwn i'n mosaig bendigedig. O'ch sylwadau, rydym yn gwybod eich bod mor falch ohono ag yr ydym ni, ag ei fod yn wirioneddol adlewyrchu bywyd yn yr ysgol ag Aberaeron i gyd. Ein diolch i Pod Clare am gyd gysylltu'r prosiect ac i'r Loteri Genedlaethol am ei ariannu.

EIN CYNGERDD DATHLU

Ein diolch i bawb a gyfrannodd i'n cyngerdd dathlu—drwy wisgoedd, cludo a chefnogi'r disgyblion. Gwnaethom gadw'r cyfnod ymarfer yn fyr ar bwrpas er mwyn lleihau'r torri ar draws gweithgareddau bob dydd yr ysgol. Gweithiodd y strategaeth yn arbennig a fe weithiodd pawb yn eithriadol o galed dros gyfnod byr ac roeddent yn llawn egni a brwdfrydedd ar y ddwy noson. Fe wnaeth eich plant berfformio yn arbennig o dda ac rydym mor falch ohonynt. Ein diolch i'r staff a helpodd ysgrifennu/addasu, creu gwisgoedd, cyfeilio, arwain a.y.b., ac i dim y Neuadd Goffa, yn enwedig Gareth, heb ei arbenigedd a chefnogaeth byddai llawer o'r effeithiadau wedi bod yn amhosibl. Roedd y perfformiadau yn deyrnged ac adlewyrchiad teg o 50 mlynedd o addysg yn yr ysgol—addysg sydd wedi paratoi disgyblion a'u helpu ar y daith i ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi—academaidd, proffessiynol, ymarferol ac ym maes chwaraeon ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Gobeithiwn y bydd yn parhau i ddarparu'r un lefel o gefnogaeth yn y dyfodol, yn bwydo'r genhedlaeth nesaf fel eu bod nhw hefyd yn datblygu i fod yn unigolion annibynnol a galluog sydd yn medru meddwl dros eu hunain a chyfrannu'n effeithiol i'w cymunedau.

DATHLIADAU'R DIWRNOD AGORED

Crewyd cryn dipyn o drafodaeth gan ein harddangosfeydd—lluniau, llyfrau, CDau ar artiffactau yn ystod y Diwrnod Agored—cofiwyd cyfoedion a digwyddiadau ar hyd y blynyddoedd, bu bobol yn cyfnewid storiau a rhannu a mwynhau. Rydym yn ddiolchgar i chi am ychwanegu i'n gwybodaeth hanesyddol o'n hysgol.

Ymunodd nifer dda ohonoch ni ar y diwrnod ac rydym yn wirioneddol yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth. Rydym yn diolch yn arbennig i Mrs.Owenna James, Maer Aberaeron am ddod i agor y cyfan a rhannu ei hatgofion am y cyfnod pan bu ei meibion yn mynychu'r ysgol ac hefyd am ei dymuniadau da.

Fe wnaeth pawb fwynhau'r Ffair Hâf a drefnwyd gan Ffrindiau'r Ysgol. Diolchwn iddynt am gyd-weithio gyda ni mor agos a thrwy hynny sicrhau bod y diwrnod cyfan yn un pleserus i bawb yn nheulu'r ysgol—beth bynnag eu hoedran !

RHIFAU PEL BONWS

2.6.12 - Neris Hesford

16.6.12 - Sally Davies

23.6.12 - Carol Davies

30.6.12 - Marjorie Squires

7.7.12 - Alison Lally

14.7.12 - Sarah Thomas

MIRI MENTER

Cymerodd ein dyfeiswyr ariannol ran mewn prynhawn o weithgareddau i hybu mentergarwh. Roedd disgyblion Bl. 3—6 ynghlwm â'r gweithgaredd.

James Sweet oedd pencampwr y dydd gyda Saffron Munro a Jessica Harwood yn fuddugol am fenter ar y cyd.

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gymryd rhan.

BL.4 GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Cafwyd diwrnod cyffrous yng Nghanolfan Naturesbase, Cilcennin gydag amrywiaeth o weithgareddau yn amrywio o greu cuddfanau yn y coed, cynnai tân, datrys problemau a gwneud pitsa hynod flasus tu allan.

Dychwelodd pawb braidd yn fudur i'r ysgol!

Diolch i Giles, Alison a Jasmin am ddiwrnod **bendigedig.**

PROMS CEREDIGION

Bu Proms Ceredigion yn lwyddiant ysgubol unwaith eto eleni—mae'n brofiad ffantastig i'n disgyblion ac mae safon y perfformiad mor uchel. Gwahoddwyd disgyblion blwyddyn 6 i ymuno a'r côr a gwnaeth bron pob un dderbyn ac elwa cymaint o'r profiad. Fe wnaeth 8 o'n chwaraewyr llinynnau gymryd rhan yng Ngherddorfa Ceredigion a berfformiodd yn y proms ac unwaith eto roedd safon y gerddorfa yn anhygoel o uchel. Ein llongyfarchiadau i'n cantorion a'n offerynwyr am eu perfformiadau ac am gynrychioli'r ysgol mor arbennig o dda.

YR YMWELIAD BRENHINOL

Buom mor ffodus o gael diwrnod sych heulog ar gyfer diwrnod yr ymweliad—roedden wedi rhagweld criw bach gwlyb tu hwnt yn mynd yn ôl i'r ysgol ! Fel y digwyddodd, aeth yr awr o sefyll yn weddol ddi ffwdan, ac roedd ymddygiad y plant yn arbennig! Roeddem mor falch o'u hymddygiad a cawsom lawer iawn o sylwadau o'r cyhoedd am eu hamynedd a'u parodrwydd i aros heb ffws, hyd yn oed y rhai bach pedair oed. Rydym hefyd yn falch o'u canu a'u perfformiad. Ein diolch i Bryn am gyflwyno'r blodau i'r Dduges o Gernyw ac i Tomos am gyflwyno un o'n mygiau dathlu hanner can mlwyddiant i'r Tywysog Siarl.

PENTRE BACH

Gwnaeth disgyblion Bl.1 a 2 fwynhau noson anhygoel ym Mhentre Bach. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol cafodd pawb amser rhagorol, gyda parti anhygoel i ddechrau'r ymweliad yng Nghaffi Sali Mali. Er bod pawb yn hynod gyffrous gwnaeth pawb gysgu—o'r diwedd !! Yng Ngwesty Pili Pala ac yn Nhy Nicw Nacw.

Ymunodd gweddill y ddau ddosbarth yn y bore, a cafwyd ymweliadau oddi wrth Coblyn a Sali Mali. Diolch i Mrs Owen, Miss Thomas, Miss Janet a Miss Jones a thrigolion Pentre Bach am wneud yr ymweliad yn un cofiadwy. Gobeithio y gallwn drefnu ymweliad tebyg y flwyddyn nesaf.

MABOLGAMPAU

Fe lwyddwyd i gynnal y mabolgampau er gwaethaf y tywydd anffafriol. Yn y ddau gyfnod cafwyd cystadlu brwd, a thyrfa dda o rieni a chefnogwyr wedi troi allan. Eleni Cadwgan oedd yn fuddugol yn y Cyfnod Sylfaen a Pentwr yng Nghyfnod Allweddol 2.

TELEDU BOOMERANG

Mae cyfres newydd o 'Teulu' yn cael ei ffilmio yn Aberaeron ar hyn o bryd, ac yn ôl yr arfer bellach mae golygfeydd yn cynnwys yr ysgol. Diolch i bawb a wnaeth wirfoddoli i'n cynorthwyo eto eleni.

CYMORTH CYNTAF

Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 5 am orffen cwrs diwrnod Cymorth Cyntaf yn llwyddiannus—da iawn chi gyd.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Mrs. Debbie Parnell am fynychu a llwyddo mewn arholiad cwrs tri diwrnod Cymorth Cyntaf yn y gwaith, ac i Miss Rian Evans am lwyddo i basio cwrs 'refresher' dau ddiwrnod Cymorth Cyntaf yn y gwaith.

PENTYWYN

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau wythnos arbennig iawn yn ymdopi a nifer o weithgareddau—caiaco, abseilio, teithio ar wifren zip, adeiladu yn yr afon, gwrando ar storiwr—ac wrth gwrs diwrnod byth gofiadwy ar Ynys Sgomer.

Tra bant yna, derbyniodd Mr.Jones dystysgrif arbennig yn cofnodi ei gyfraniad i'r ganolfan dros 25 mlynedd. Ein diolch iddo am fod mor barod i roi o'i amser i fynd a'r disgyblion a'u galluogi i elwa o'r holl brofiadau dros y blynyddoedd yn ogystal ag eleni. Diolch hefyd i Miss Elin, Miss Susan a Miss Debbie am eu mewnbwn angenrheidol eleni.

CYNORTHWYWRAIG COMENIWS

Rydym wedi llwyddo i dderbyn Cynorthwywraig Comeniws Ffrenig ar gyfer y flwyddyn nesaf eto—Leatitia. Edrychwn ymlaen iddi ymuno â ni fis Medi nesaf ac i elwa o'i gwybodaeth a'i harbenigedd. Rydym yn dal i chwilio am fflat iddi, felly os ydych yn gwybod am un sy'n debygol o fod ar gael, byddem yn ddiolchgar o gael gwybod.

PC JACKIE

Yn ystod y tymor mae P.C. Jackie wedi bod yn ymweld â phob dosbarth yn siarad am 'Ddiogelwch ar y Traeth'. Mae pawb bob amser yn mwynhau ei thasgau a'i chyfraniadau.

GWEITHGAREDDAU TRAETH

Dros y tymor mae pob dosbarth wedi cael cyfle i wneud gweithgareddau traeth gyda Melanie Heath. Mae'r profiadau gwahanol wedi bod yn rhai difyr a gwerthfawr.

GWYL NôL A MLAEN

Diolch i bawb a wnaeth ddod i ymuno yn y canu yng Ngwyl Nôl a Mlaen yn Llangrannog a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

GWIBDAITH MEITHRIN/ DERBYN

Aeth y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i Teifimania am y bore, ac yna ymlaen i draeth Poppit i fwynhau ar y tywod. Cafodd pawb amser da.

POB LWC

Pob lwc i'r disgyblion hynny sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor i barhau eu haddysg yn yr ysgol uwchradd. Diolch i chi gyd a'ch teuluoedd am eich cyfraniadau i Ysgol Gynradd Aberaeron, a cofiwch bod croeso i chi yma unrhyw bryd. Byddwn yn gweld eich heisie.

Dymuniadau da hefyd i Rian Evans sydd wedi gadael dros dro ar gyfnod mamolaeth. Edrychwn ymlaen at glywed newyddion cyffrous.

Croeso i Lowri Davies sydd wedi ymuno â'r staff.

CYFLE I FOD YN ARWEINYDD CLWB PYRAMID

Ysgol Gynradd Aberaeron—Tymor yr Hydref

Cyfle i gael hyfforddiant arweinydd, codi hunanhyder plant (oed 7-8), profiad arbennig os ydych eisiau gweithio efo plant. Am fwy o fanylion cysylltwch efo Helen Llewellyn—07581035817